# ATODIAD 3 – NODIADAU CYFARWYDDYD I GYNRYCHIOLWYR AWDURDODAU LLEOL

Bwriad y nodyn hwn yw rhoi arweiniad i bob awdurdod lleol sy’n ceisio datgeliad gan yr Heddlu. Mae hyn yn cynnwys:

1. Ceisiadau a wnaed i’r Heddlu, a sut i wneud y rhain
2. Cyfarwyddiadau llys a allai fod yn angenrheidiol

## 1. Egwyddorion cyffredinol

1.1 Mae’n allweddol rhoi gwybod yn fuan bod angen datgeliad gan yr Heddlu a sicrhau cyfathrebu rheolaidd rhwng asiantaethau partner. Dylai’r awdurdod lleol ystyried gwneud cais am ddatgeliad gan yr Heddlu ar yr adegau a ganlyn beth bynnag:

a. Pan fyddwch yn ystyried achos
b. Pan fyddwch yn cychwyn achos llys ar unrhyw achos nad yw wedi mynd i mewn i’r broses cyn-achos

1.2 Cofiwch nad oes angen y drefn hon os ydych chi’n rhannu gwybodaeth a gafwyd gan yr heddlu ag awdurdod lleol arall - er enghraifft, ar ffurf MERLIN, Cynhadledd Achos Amddiffyn Plant (CPCC) neu adroddiad Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC), er mwyn hyrwyddo amddiffyn plant. Os ydych chi’n bwriadu rhannu’r wybodaeth honno’n ehangach, gyda rhywun y tu allan i’r awdurdod lleol, mae angen dilyn y drefn isod cyn gwneud unrhyw ddatgeliad.

1.3 Y drefn a ddefnyddir ar gyfer gofyn am ddogfennau i’w defnyddio mewn achosion teulu yw drwy’r cais am ddatgelu gwybodaeth yr heddlu

1.4 Nodau’r cais yw:

- Rhoi gwybodaeth gynnar i’r Llys Teulu i’w alluogi i benderfynu’n briodol ar unrhyw gyfarwyddyd angenrheidiol y mae angen ei roi mewn perthynas â dogfennau, cofnodion neu

ddeunydd tystiolaethol arall sydd ym meddiant yr heddlu mewn achosion neu ymchwiliadau troseddol perthnasol a allai roi gwybodaeth i'r llys (a'r partïon) wrth benderfynu ar unrhyw fater ffeithiol neu fater lles mewn achos teulu

- Rhoi rhybudd ymlaen llaw amserol i'r Heddlu o fodolaeth yr achos teulu a natur a manylion yr wybodaeth a geisir gan yr heddlu
- Galluogi'r Heddlu i nodi ymlaen llaw pa ddogfennau, cofnodion neu ddeunydd tystiolaethol arall (gan gynnwys deunydd a ddefnyddiwyd a deunydd nas defnyddiwyd) sydd ar gael neu a allai fod ar gael i'w datgelu i'r llys teulu ac a oes unrhyw wrthwynebiad neu anhawster i ddatgelu'r un peth ar unwaith
- Galluogi'r awdurdod lleol i gael gwybodaeth berthnasol gan yr Heddlu yng ngham cyn-achos unrhyw achos er mwyn sicrhau bod asesiadau priodol yn cael eu cynnal pan fydd penderfyniad wedi ei wneud i ddefnyddio'r broses hon, yn hytrach na chychwyn achos llys
- Annog ceisiadau am ddatgeliad sy'n gyfyngedig i ddeunydd sy'n berthnasol ac yn angenrheidiol i ddatrys y materion yn yr Achos Llys Teulu

1.5 Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn defnyddio'r cais yn gymesur gan ystyried yr hyn sy'n rhesymol, yn uniongyrchol berthnasol ac yn angenrheidiol wrth geisio datgeliad. Anogir partïon i adolygu'r Nodiadau Cyfarwyddyd, sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol.

1.6 Os bydd awdurdod lleol yn methu cwblhau'r cais yn gywir, mae'n bosib y bydd hyn yn arwain at ei wrthod gan yr Heddlu a bydd yr awdurdod lleol yn cael cyfarwyddyd i gwblhau'r broses eto. Bydd hyn yn arwain at oedi cyn darparu datgeliad. Byddai enghreifftiau o fethiannau o'r fath yn cynnwys ceisiadau cyffredinol am ddatgelu neu geisiadau heb wybodaeth lawn a phriodol er mwyn gallu eu prosesu.

1.7 Cyn gofyn am ddatgeliad gan yr Heddlu, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y cofnodion sydd gan ei gleient. Os bydd CPCC/MARAC wedi ei gynnull mewn perthynas â'r plentyn/plant, bydd yr awdurdod lleol wedi cael adroddiad gan yr Heddlu yn cynnwys gwybodaeth sy'n dyddio'n ôl 5 mlynedd o'r cyfarfod cychwynnol. Gan ddefnyddio'r

adroddiad hwn, dylai'r awdurdod lleol fod mewn sefyllfa i gyflwyno cais penodol am ddatgeliad gan ddefnyddio'r adrannau a ganlyn o'r cais:

A. Adran 8 – gofyn am ganiatâd i rannu gwybodaeth yr heddlu a gedwir gan eu cleient. Rhaid i gofnodion a gedwir gan yr awdurdod lleol gael eu hatodi i'r cais fel y gellir eu hystyried ar gyfer eu golygu. Mae hyn yn cynnwys yr adroddiad a baratowyd ar gyfer unrhyw CPCC/MARAC;
B. Adran 6/7 - gofyn am wybodaeth ychwanegol am ddigwyddiadau penodol. Cofiwch y bydd ceisiadau'n cael eu gwrthod oni bai fod dyddiad y digwyddiad, y cyfeirnod neu'r disgrifiad wedi eu rhestru. I ddechrau, dylai'r awdurdod lleol ofyn am adroddiad(au) perthnasol yr ymchwiliad ac, ar ôl eu hadolygu, dylai gyflwyno cais wedi ei ailddiffinio am ddogfennau penodol.
C. Adran 5 – mewn achosion lle mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o hanes troseddol y gwrthrych, rhaid peidio â llenwi adran 5 o'r cais.

1.8 Os na alwyd CPCC/MARAC, ac nad oes gan yr awdurdod lleol wybodaeth sy'n ymwneud â hanes troseddol rhiant neu ofalwr, rhaid llenwi adran 5 y cais, gan ofyn am adroddiad cryno. Atgoffir yr awdurdod lleol i ddarparu'r wybodaeth a ganlyn er mwyn gallu chwilio'n gywir ar systemau'r Heddlu: (i) amserlen ar gyfer cwblhau chwiliadau, (ii) natur yr wybodaeth a geisir a (iii) manylion unigolion arwyddocaol.

1.9 Bydd yr adroddiad cryno yn nodi cyfeirnod y trosedd, natur yr honiad, manylion y pwnc a'r canlyniad. Ar ôl i'r awdurdod lleol dderbyn yr adroddiad cryno, gellir gofyn am dystiolaeth benodol sy'n ymwneud â digwyddiad penodol gan yr Heddlu. Mewn achosion o'r fath, dylai'r awdurdod lleol lenwi adran 6/7 y cais a'i hailgyflwyno i'r Heddlu.

1.10 Dylai'r awdurdod lleol ystyried yr wybodaeth y gofynnir amdani, os yw'r plentyn wedi ei leoli gyda gofalwr arall/eisoes yn byw gyda nhw (e.e. aelod arall o'r teulu neu bartner), gellir gofyn am ddatgeliad gan yr Heddlu mewn perthynas â'r unigolyn hwnnw ond dylid rhoi esboniad i'r Heddlu pam mae hynny'n angenrheidiol. Dylai'r datgeliad cychwynnol fod ar ffurf y PNC a dylid cwblhau

chwiliadau ehangach drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Os na fydd y DBS yn ymateb o fewn amserlen briodol, dylid cael cyfarwyddyd gan y llys yn erbyn y DBS.

1.11 Os yw'r awdurdod lleol yn cwblhau asesiad hyfywedd ac yn ystyried lleoli plentyn/plant ar unwaith gyda gofalwr arall, gan fod angen cyflwyno cais am ddatgeliad i'r Hyb Diogelu Aml-asiantaeth (MASH)

1.12 Rhaid rhoi gwybod i'r Heddlu am ddyddiadau allweddol mewn achos. Mae hyn yn cynnwys pryd rydych chi'n rhagweld y bydd eich asesiadau cyn-achos yn cael eu cwblhau sy'n ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth yr Heddlu gael ei chwblhau, ac er mwyn i benderfyniadau gael eu gwneud gan yr awdurdod lleol.

1.13 Lle ceir golygiadau i ddogfen, a bod y partïon, ar ôl ystyried y Nodiadau Cyfarwyddyd sy'n egluro pwrpas golygiadau, o'r farn bod unrhyw un o'r rhain yn gwneud y datgeliad yn aneffeithiol, dylid nodi'r golygiad penodol hwnnw'n glir a gwneud cais i'r Heddlu ailystyried y golygiad hwnnw neu ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch pam y bernir ei fod yn angenrheidiol. Ni ddylid gwneud ceisiadau cyffredinol i ddileu golygiadau gan nad yw hyn yn gymesur nac yn briodol.

1.14 Lle mae'r ymchwiliad yn parhau a Gwasanaeth Erlyn y Goron ynghlwm yn y mater, bydd yr Heddlu'n trafod y mater gyda chynrychiolydd Gwasanaeth Erlyn y Goron, yn rhoi gwybod iddynt am natur yr achos sy'n mynd rhagddo a'r deunydd y gofynnir amdano ar yr adeg hwnnw. Os bydd partïon yn gwrthwynebu i'r Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron wneud penderfyniad ar y cyd ynghylch datgelu, dylid rhoi gwybod i'r Heddlu cyn gynted ag y bo modd.

## 2. Achosion lle mae achos yn cael ei gychwyn neu'n parhau

2.1 Os bydd mater gerbron y llys, rhaid rhoi gwybod i'r Heddlu am ddyddiadau allweddol sy'n cynnwys camau gweithredu gan yr Heddlu.

2.2 Os yw Atodiad 1 wedi ei gyflwyno, rhaid rhoi'r cyfnod amser perthnasol i'r Heddlu ymateb a darparu datgeliad (sef hyd at 20

diwrnod busnes) oni bai am amgylchiadau eithriadol. Ni ddylai partïon mewn achosion geisio gorchmynion y llys i'w datgelu gan yr Heddlu heb ddilyn y llwybrau protocol arferol yn gyntaf.

2.3 Os yw'r awdurdod lleol yn gofyn am ddatgeliad parhaus gan yr Heddlu ac yn bwriadu ceisio gorchymyn i'r perwyl hwn, ni ddylai hwn fod yn orchymyn treigl cyffredinol. Dylai'r cyfarwyddyd fod yn benodol o ran dyddiadau ar gyfer datgelu, unwaith y mis ac amser wedi ei gyfyngu i wrandawiad canfod ffeithiau neu wrandawiad terfynol, a rhaid iddo gael ei arwain gan gynrychiolydd yr awdurdod lleol. Os symudir dyddiad y gwrandawiad hwnnw, rhaid i unrhyw orchymyn sy'n amrywio amserlen ymestyn datgeliad yr Heddlu hefyd. Dylai unrhyw gyfarwyddyd o'r fath ddefnyddio geiriad fel a ganlyn:

2.3.1 Ar ôl cael cadarnhad ysgrifenedig gan yr awdurdod lleol bod angen diweddaru'r datgeliad, mae'r [heddlu] yn cael eu cyfarwyddo drwy hyn i ddarparu datgeliad wedi ei ddiweddaru, gan gynnwys [rhowch yr hyn sy'n ofynnol] ar [rhowch ddyddiadau penodol, hyd at y gwrandawiad terfynol neu ganfod ffeithiau sydd wedi ei restru].

2.4 Ar gyfer achosion cymhleth (y rhai sy'n ymwneud â llofruddiaeth, ymosodiad difrifol neu farwolaeth baban) pan fydd yr Heddlu'n darparu datgeliad wedi ei ddiweddaru, gallant hefyd ddarparu tabl/rhestr wedi ei ddiweddaru o ba wybodaeth sydd wedi ei darparu hyd yma a pha wybodaeth yr ystyrir nad yw'n berthnasol i'w datgelu. Cyfrifoldeb y partïon yn yr achos llys yw sicrhau bod ganddynt yr holl dystiolaeth a restrir ac nad oes unrhyw dystiolaeth allweddol ar goll. Os nad oes dogfennau penodol ar gael, rhaid gwneud cais ar unwaith i'r Heddlu, a chyn i'r gwrandawiad ddechrau.

2.5 Ni ddylai partïon ofyn am ddatgeliad gan asiantaeth bartner gan yr Heddlu pan nad y nhw yw'r asiantaeth arweiniol. Mewn termau real, mae hyn yn golygu os yw'r awdurdod lleol (neu barti arall) yn gofyn am ddatgeliad gan asiantaeth iechyd fel cofnodion ysbyty, neu'r Gwasanaeth Ambiwlans, rhaid gwneud y cais hwn i'r asiantaeth honno ac nid drwy'r Heddlu.

## 3. Tystiolaeth ddigidol

Tystiolaeth ddigidol sy'n perthyn i'r partïon

3.1 Os yw partïon yn ceisio datgelu gwybodaeth ddigidol gan yr Heddlu sy'n ymwneud â dyfeisiau sy'n perthyn i'r partïon, yna dylid gofyn am gyfarwyddyd gan y llys dan y telerau a ganlyn:

3.1.1 Mae'n rhaid i'r [heddlu] ddatgelu i [ENW] erbyn [X DYDDIAD] [natur fanwl y dystiolaeth ddigidol] ynghylch [ENW] ar gyfer y cyfnod perthnasol, sef [X DYDDIAD – X DYDDIAD], a hynny mewn fformat heb ei olygu, ac mae'n rhaid i'r llys fod yn fodlon bod yr wybodaeth hon yn dystiolaeth angenrheidiol i gael ei dwyn gerbron y llys. Mae modd i'r [heddlu] wneud cais i'r llys i amrywio'r gorchymyn hwn ar ôl rhoi rhybudd i'r partïon, erbyn [X DYDDIAD].

Tystiolaeth ddigidol sy'n perthyn i drydydd partïon

3.2 Os yw partïon yn ceisio datgelu gwybodaeth gan yr Heddlu sy'n cynnwys trydydd parti nad yw'n rhan o achos, dylai'r partïon godi hyn a rhaid i'r llys fod yn fodlon bod hyn yn angenrheidiol, gan ystyried yr hyn sy'n gymesur. Dylid cynnwys cyfarwyddyd wedyn yn y gorchymyn llys yn cadarnhau bod y llys yn fodlon bod y datgeliad hwn yn angenrheidiol i'r achos. Cyn i unrhyw barti geisio'r cyfarwyddyd hwn, rhaid i'r awdurdod lleol gysylltu â'r Heddlu a chytuno ar sefyllfa o ran pwy fydd yn gyfrifol am wneud golygiadau angenrheidiol ac ysgwyddo'r gost hon. Dyma enghraifft o gyfarwyddyd:

> Mae'n rhaid i'r [heddlu] ddatgelu i [ENW] erbyn [X DYDDIAD] [natur fanwl y dystiolaeth ddigidol] ynghylch [ENW] ar gyfer y cyfnod perthnasol, sef [X DYDDIAD – X DYDDIAD], ac mae'n rhaid i'r llys fod yn fodlon bod yr wybodaeth hon yn dystiolaeth angenrheidiol i gael ei dwyn gerbron y llys. Bydd yr Heddlu'n rhoi gwybod i [ENW trydydd parti] am y cyfarwyddyd hwn erbyn [X DYDDIAD], bydd gan [ENW trydydd parti] hawl i wneud cais i amrywio'r gorchymyn hwn drwy roi rhybudd i bob parti. Os yw [ENW trydydd parti] yn bwriadu gwneud cais i

amrywio'r gorchymyn hwn, rhaid iddo/iddi wneud hynny erbyn [X DYDDIAD].

## 4. Materion ar ôl cyhuddo

4.1 Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn arwain ar benderfyniadau sy'n ymwneud â datgelu deunydd sydd wedi cael ei gynhyrchu o ganlyniad i ymchwiliad sydd ar gam ar ôl cyhuddo. Os bydd gan Wasanaeth Erlyn y Goron unrhyw wrthwynebiad a/neu bryder am y deunydd y gofynnir amdano o ran yr effaith ar y treial, rhaid iddynt hwy fel yr awdurdod erlyn fod yn gyfrifol am wneud unrhyw gais/cyflwyniad angenrheidiol i'r Llys yn uniongyrchol. Gall yr Heddlu wneud sylwadau ar wahân o ran unrhyw bryder o safbwynt diogelu.

4.2 Er mwyn bwrw ymlaen â hyn, bydd yr Heddlu'n trafod y mater gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron, rhoi gwybod iddynt am natur yr achos sy'n mynd rhagddo a'r deunydd y gofynnir amdano ar yr adeg hwnnw (gweler 1.15 uchod). Rhaid i gyfarwyddiadau sy'n dilyn cyfranogiad Gwasanaeth Erlyn y Goron gyfeirio'n benodol at yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

4.3 Ni fydd yr Heddlu ond yn darparu datgeliad mewn amgylchiadau pan fydd ganddynt bryderon diogelu, a dim ond os bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cadarnhau nad oes ganddynt wrthwynebiad i'r cais datgelu y rhoddir datgeliad, neu lle mae'r Llys yn gwneud gorchymyn datgelu pellach yn dilyn sylwadau a wneir gan Wasanaeth Erlyn y Goron a'r Heddlu.

## 5. Delweddau anweddus

5.1 Yn ystod ymchwiliad, gall yr heddlu atafaelu deunydd sy'n cynnwys delweddau anweddus o blant (dan 18) neu ddelweddau o'r fath yr honnir eu bod yn anweddus. Os yw'n berthnasol ac yn angenrheidiol, dylai cais geisio cael disgrifiad yr heddlu o'r delweddau hynny, neu ddisgrifiad pellach a gwell, nid y delweddau eu hunain. Ni chaniateir mynediad at ddelweddau o'r fath heb orchymyn barnwr Llys Teulu. Dylai barnwr y gofynnir iddo ystyried gorchymyn sy'n hwyluso mynediad i'r delweddau eu hunain gael gwybod am ddarpariaethau adran 160 Deddf Cyfiawnder Troseddol

1988 ac adrannau 1 i 7 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1978, yn enwedig trosedd 'gwneud llun anweddus o blentyn' a'r amddiffyniadau statudol ac eithriadau, a dim ond trefnu mynediad dan reolaeth a hwylusir gan yr heddlu (gan gynnwys mynediad sy'n caniatáu i barti gael trafodaeth gyfrinachol gyda'u cynrychiolwyr cyfreithiol) y dylid gofyn iddynt ei ystyried. Mae'r un ystyriaethau'n berthnasol i ddelweddau eraill lle mae lledaenu wedi ei wahardd.

## 6. Terminoleg yr heddlu

- Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) – bydd yr adroddiad hwn yn rhoi manylion euogfarnau/gwaharddiadau neu rybuddion
- Adroddiad yr ymchwiliad - CRIS/Niche/FWIN ac ati. Bydd yr adroddiad hwn yn cofnodi llwybr yr ymchwiliad, pa wybodaeth a gasglwyd o ganlyniad i ymholiadau, a'r canlyniad.
- Merlin/Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd (PPN) – bydd yr adroddiad hwn yn cofnodi asesiad cychwynnol neu benderfyniad ynghylch digwyddiad sy'n ymwneud ag unigolyn agored i niwed. Cyfeirir y cofnodion hyn yn awtomatig at yr awdurdod lleol ac felly dylid gofyn am yr adroddiadau hyn gan ddefnyddio adran 7 y cais.
- MG11 – datganiadau
- MG15 – trawsgrifiad o'r cyfweliad
- VRI/ABE – cyfweliad wedi ei recordio'n weledol
- ROTI – Recordiad o gyfweliad ar dâp
- ROVI - Recordiad o gyfweliad Fideo
- BWV – Fideo camera corff
- CAD/galwad 999/STORM – mae hyn yn ymwneud â chofnod galwadau i weithredwr yr heddlu

Enghraifft o adroddiad cryno a ddrafftiwyd gan yr MPS.

| Rhif y Trosedd | Dyddiad y digwyddiad | Dosbarthiad cyfredol ar system CRIS | Enw Llawn | Dyddiad Geni | Rôl | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1236072/19 | 27/05/2019 i 29/06/2019<br><br>Adroddwyd 02/08/2019 | SUBSTANT./Troseddau Aflonyddu<br><br>Mae'r dioddefwr yn dweud bod ei chyn-bartner (yr un a amheuir) yn aflonyddu | Ash Smith<br><br>Cat Smith | 10/10/1974<br><br>16/08/1975 | Dan amheuaeth<br><br>Dioddefwr | Rhoddwyd rhybudd atal aflonyddu i'r sawl a amheuir. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | drwy e-bost, galwadau a negeseuon testun. | | | | |
| 2821234/20 | 07/07/2018<br><br>Adroddwyd ar 19/09/2020 | SUBSTANT./Creulondeb at Blentyn neu Esgeuluso Plentyn<br>Yn ystod apwyntiad, soniodd yr hysbysydd am yr ymosodiad ar y ferch gan yr un dan amheuaeth | Jill Smith<br><br>Ash Smith<br><br>Cat Smith | 18/09/2013<br><br>10/10/1974<br><br>16/08/1975 | Dioddefwr<br><br>Hysbysydd<br><br>Dan amheuaeth | Dim camau pellach |

*Sylwch y bydd yr adroddiad cryno yn amrywio yn dibynnu ar y gwnstabliaeth.